

## Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw eto at bawb o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Mae Bessie Owens (Cefn Berain) a Kitty Parry (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd – hyderwn y bydd y ddwy yn parhau i gryfhau, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd. Yr un hefyd yw'n dymuniad i bawb arall sydd wedi cael gwahanol driniaethau yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw a gweddiwn y byddant yn profi daioni Duw yn eu cynnal a'u gwarchod y diwrnodau hyn.
- Llongyfarchiadau i Eiddwen ac Esmor Hughes (Llansannan) ar enedigaeth merch, Elisa Mair. Gweddiwn dros y teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

## Apêl Ethiopia

Cafwyd oedfa arbennig nos Sul diwethaf i gychwyn ein hymdrech i godi arian er mwyn helpu pobl Ethiopia i fedru cynnal eu hunain unwaith eto o ganlyniad i'r sychder gwaethaf gafwyd yno ers hanner canrif.

Os nad ydach chi wedi cael amlen i gyfrannu tuag at yr apêl, holwch un o flaenoriaid eich eglwys, ac os dymunwch ysgrifennu siec i gyfrannu i'r apêl, gwnewch hi'n daladwy i **"EGLWYSI BRO ALED"**, os gwelwch yn dda. Byddem yn ddiolchgar petaech yn rhoi yr amlen i drysorydd eich eglwys neu i Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF **erbyn diwedd Chwefror**, os gwelwch yn dda, fel y medrwn anfon yr arian ymlaen fel un cyfraniad gan Eglwys Bro Aled. Diolchwn ymlaen llaw i chi am eich cefnogaeth.

## I ddod

- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-10)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 24ain–26ain. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn o'r Fro, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Os nad ydych wedi anfon y ffurflen i archebu lle (ynghyd â blaendâl o £10) i Goleg y Bala, rhaid i chi wneud hynny ar frys i sicrhau lle. Mwy o fanylion a ffurflenni ar gael gan Gwion.
- **CYMDEITHAS LLANEFYDD** – Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant i ddilyn yng Nghapel Llanefydd nos Iau, Mawrth 2il. Mwy o fanylion i ddod.
- **"CANWCH GÂN NEWYDD I'R ARGWLWYDD..."** – Gweithdy caneuon Cymraeg ar gyfer addoliad cyfoes yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Mawrth 25ain o 10.00 – 4.00. Mae'n addas i rai sydd â rhywfaint o brofiad, a'r di-brofiad, y rhai sy'n gerddorol, neu'n dda efo geiriau. I gofrestru, cysylltwch ag Andy Hughes ar 01678 530347 / saintygyuned@btinternet.com.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Ebrill 17eg–20fed. Rhaid archebu llety **erbyn Chwefror 27ain** os ydych am fanteisio ar y cabanau hunan arlwyol yn Hafan y Môr. Mwy o fanylion yn y taflenni gwybodaeth sydd ar gael, neu ewch i'r wefan [llanw.org](http://llanw.org).



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12<sup>fed</sup> Chwefror 2017

Darlleniad y Dydd

2 Thesalonïaiaid 2:13-17

(BCND tud.228 / BCN tud.209)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i chi i'r oedfaon heddiw. Gweddiwn y byddwn ni i gyd yn dod i berthynas ddyfnach gyda'n Harglwydd ac yn cael ein hatgoffa mor enfawr ydy ei gariad atom ni. Dewch i ni gymryd y cyfle i weddio fel mae Paul yn gweddio yn adnodau 16-17 o'n darlleniad ni heddiw (2 Thes. 2:13-17). Yn y dyddiau caled yma, dewch i ni anrhydeddu ein gilydd trwy gyflwyno ein ffrindiau, teulu a chyd-aelodau i'r Arglwydd, ac y bydd yn eu cysuro a'u nerthu i wneud beth sy'n dda.

Fel rydym i gyd yn gwybod, ryda ni'n byw mewn amseroedd ansicr iawn. Mae ansicrwydd ac ansefydlogrwydd gwleidyddol wrth i ni feddwl am sut mae arweinwyr y byd yn cydweithio. Mae ansicrwydd economaidd wrth i'r byd masnachol ddod i dermau gyda Phrydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac mae ansicrwydd cymdeithasol wrth i ni gael adroddiadau pryderus am ein system iechyd ac am y sefyllfa ffoaduriaid fregus iawn sy'n dal yn bwnc llosg go iawn. Sut yda ni felly i fyw yn yr amseroedd yma? Yn bwysicach, ydy ansefydlogrwydd y byd o'n hamgylch ni yn mynd i ysgwyd ein ffydd? A fydd ein ffydd yn datblygu'n rhywbeth ansicr?

Os yda ni'n teimlo fel yma, mae gan Paul eiriau cadarn i ni. Yn ail bennod 2 Thesalonïaiaid, mae Paul yn ysgrifennu i leddfdu ofnau'r bobl oedd yn credu eu bod wedi methu ail-ddyfodiad Iesu Grist ac yn cael eu dylanwadu gan lawer o bobl wahanol oedd yn ceisio eu twyllo a'u denu i ffwrdd o'u ffydd. Yng ngwyneb hyn, ateb Paul ydy cyhoeddi'r gwir ac atgoffa'r darllennwyr mor anhygoel ydy ysblander yr Arglwydd o gymharu ag unrhyw beth arall sy'n bod (2 Thes. 2:8). Mae Paul yn gorffen y bennod trwy ein hatgoffa beth ddylem ni ddal ymlaen ato pan mae ansicrwydd yn ein taro ni – 1) Cyhoeddi'r Newyddion Da; 2) Ysblander yr Arglwydd Iesu; 3) Y cwbl sydd wedi cael ei ddysgu i ni.

Mewn cyfnodau o ansicrwydd, mae Paul yn pwysleisio pa mor bwysig ydy dal ymlaen at yr hyn y gwyddwn sy'n wir – Gair Duw. Uwch popeth arall, dyma sy'n bwysig. Dim ots beth arall sy'n digwydd o'n cwmpas ni "mae neges yr ARGWLWYDD yn aros am byth" (Eseia 40:8), "Yr ARGWLWYDD ydy'r Duw tragwyddol! Fo sydd wedi creu'r ddaear gyfan. Dydy ei nerth o ddim yn pallu; Dydy o byth yn blino. Mae o'n rhy ddoeth i unrhyw un ei ddeall!" (Eseia 40:28) ac "Mae Iesu y Meseia yr un fath bob amser – ddoe, heddiw ac am byth!" (Hebreaid 13:8).

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 15<sup>fed</sup> ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn, Llansannan am 7.30.
- Iau – 16<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 17<sup>eg</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00, a bydd Ysgol Sul yno am 11.00. Bydd Cyfarfod Gweddi hefyd yng Nghefn Meiriadog am 10.30, ac Ysgol Sul am 2.00.
- Llun – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Blaenoriaid Capel Cefn Meiriadog am 7.30.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> ➤ Cofiwch am y cinio a'r sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd Cymdeithas Chwirydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30 pryd y bydd John Davies, Dinbych yn sgwrsio am ei waith gyda 'Cyngor Ar Bopeth'.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd Ysgol Sul yno am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir gwasanaeth yng Nghefn Berain am 10.00 i ddatlu bod Elin, Elan a Gwern wedi eu derbyn yn aelodau yn yr eglwys. Bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa.
- Gwener – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Chwefror 12fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.  
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 15<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Chwefror 12fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i bawb o bob oed yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.  
➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Josua 24:14-15 (BCND tud.219 / BCN tud.200)